PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

# POLISI A GWEITHDREFNAU I FYFYRWYR PRIFYSGOL BANGOR SYDD O DAN 18 OED

| Dyddiad | Diben Cyhoeddi/Disgrifiad o'r Newid | Cwblhawyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb |
|---|---|---|
| 05/11/14 | Cyhoeddiad cyntaf | |
| 03/10/16 | Adolygwyd ac ailgymeradwywyd gan y Grŵp Tasg Cydymffurfio | 5 Hydref, 2016 |
| 16/07/18 | Adolygwyd ac ailgymeradwywyd gan y Grŵp Tasg Cydymffurfio | |
| 15/03/24 | Adolygwyd ac ailgymeradwywyd gan y Grŵp Tasg Cydymffurfio | |

| Y Swyddog Polisi | Yr Uwch Swyddog sy'n Gyfrifol | Cymeradwywyd Gan | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| Uwch Swyddog Diogelu, Ymddygiad a Chwynion Myfyrwyr | Ysgrifennydd y Brifysgol | Pwyllgor Cydymffurfio | 15 Mawrth 2024 |

*Caiff y polisi hwn ei adolygu ymhen tair blynedd*

## Polisi a Gweithdrefnau i Fyfyrwyr Prifysgol Bangor sydd o dan 18 oed

### 1. RHAGARWEINIAD

Mae Prifysgol Bangor yn croesawu ceisiadau gan bobl o bob oed. Caiff pob cais ei ystyried yn ôl ei deilyngdod. Yn achlysurol mae Prifysgol Bangor yn derbyn myfyrwyr sydd o dan 18 oed. Dylai myfyrwyr a'u teuluoedd ddeall mai sefydliad i oedolion yw Prifysgol Bangor a bod disgwyl i fyfyrwyr gymryd cyfrifoldeb fel oedolion a'u bod yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol i fyw ac astudio'n annibynnol gyda phobl o amrywiaeth eang o oedrannau a chefndiroedd.

Cynigir lleoedd ar y ddealltwriaeth y bydd y myfyrwyr yn gallu ymaddasu i fyw oddi cartref a delio â'r holl elfennau ymarferol sy'n gysylltiedig â hynny. Mae'r Brifysgol yn trin ei holl fyfyrwyr fel unigolion annibynnol ac aeddfed.

Bydd y myfyrwyr hynny sydd o dan 18 oed yn dilyn rheolau a rheoliadau cyffredinol y Brifysgol a byddant yn gallu defnyddio'r rhan fwyaf o'i chyfleusterau a'i chyfleoedd yn yr un modd â'r holl fyfyrwyr eraill, yn amodol ar ddarpariaethau'r Polisi hwn a chyfraith y Deyrnas Unedig.

Dylid darllen y polisi hwn ar y cyd â *Pholisi Diogelu'r Brifysgol*.

### 2. CWMPAS

Mae'r Polisi'n berthnasol i'r holl unigolion a ddaw i gysylltiad â Phrifysgol Bangor gan gynnwys y canlynol ymhlith eraill, sef myfyrwyr a staff Prifysgol Bangor, siaradwyr gwadd, swyddi er anrhydedd a chyfarwyddwyr, yn ogystal â chlybiau, cymdeithasau, cynrychiolwyr cwrs, gwirfoddolwyr a swyddogion sabothol Undeb Myfyrwyr Bangor ac Aelodau'r Cyngor.

Mae'r Polisi hefyd yn berthnasol i fyfyrwyr Prifysgol Bangor sy'n astudio yng Ngholeg Rhyngwladol Prifysgol Bangor, ac i fyfyrwyr o bob sefydliad a/neu gwmni sydd â Chytundebau Partneriaeth gyda Phrifysgol Bangor, a hefyd i aelodau o staff y sefydliadau / cwmnïau pan fo hynny ar y cyd â myfyriwr o Brifysgol Bangor, oni nodir yn wahanol.

Nid yw'r Polisi'n berthnasol i fyfyrwyr sydd o dan 18 oed sy'n ymweld o gyrff neu sefydliadau eraill.

### 3. CYFRIFOLDEB RHIANT / GWARCHEIDWAD

Ni all Prifysgol Bangor gymryd arni ei hun yr hawliau, y cyfrifoldebau a'r awdurdod arferol sydd gan rieni dros blentyn ac ni fydd yn gweithredu in loco parentis dros fyfyrwyr sydd o dan 18 oed.

Polisi arferol y Brifysgol yw delio'n uniongyrchol â myfyrwyr ac nid â'u rhieni / gwarcheidwaid; caiff y dull hwnnw ei arfer hefyd yn achos myfyrwyr sydd o dan 18 oed (ac eithrio'r darpariaethau a nodir yn ddiweddarach yn y polisi o dan Adrannau 6[a]10, 6[b] a 7). Er bod y myfyrwyr hynny'n cael eu hystyried yn blant o dan gyfraith y Deyrnas Unedig, mae ganddynt hawl gyfreithiol o dan y ddeddfwriaeth diogelu data i wybodaeth amdanynt beidio â chael ei datgelu heb gydsyniad penodol ganddynt. Mae hynny'n golygu na fydd y Brifysgol yn rhoi gwybodaeth i rieni am gynnydd, canlyniadau, cwynion, disgyblaethau nac unrhyw amgylchiadau personol eraill, oni roddodd y myfyriwr gydsyniad penodol iddi wneud hynny. Felly, bydd y Brifysgol yn gohebu â'r myfyrwyr ac nid â'r rhieni / gwarcheidwaid.

### 4. GWEITHREFNAU DERBYNIADAU PRIFYSGOL BANGOR

#### [a] Gweithdrefn i Ymgeiswyr sydd â Rhieni / Gwarcheidwaid yn y Deyrnas Unedig

i. Pan gawn geisiadau oddi wrth ymgeiswyr am raddau israddedig a fydd o dan 18 oed pan fyddant yn dechrau eu blwyddyn astudio gyntaf, nodir hynny drwy amlygu eu hoedran yn eu cais.

ii. Mewn achosion lle bydd y Brifysgol yn dymuno gwneud cynnig i ymgeiswyr sydd o dan 18 oed, darperir dolen we at y Polisi hwn ac unrhyw wybodaeth a dogfennau pellach. Rhoddir gwybod i'r ymgeisydd os bydd yn derbyn cynnig Prifysgol Bangor y bydd angen cwblhau rhai materion ffurfiol cyn dechrau'r rhaglen radd. Mae siart llif o'r broses yn Atodiad 2.

iii. Bydd y ddolen yn caniatáu i Rieni / Gwarcheidwaid yr ymgeisydd ddarllen a lawrlwytho Cytundeb (Atodiad 1). Bydd y cytundeb yn disgrifio cyfrifoldebau'r Brifysgol a'r rhiant / gwarcheidwad mewn perthynas â'r ymgeisydd. Bydd unrhyw gynnig a roddir i'r ymgeisydd yn cynnwys yr amod bod y ffurflen Cytundeb yn cael ei chwblhau'n llawn, ei llofnodi a'i dychwelyd i'r Pennaeth Derbyniadau.

**[a] Gweithdrefn i Ymgeiswyr sydd â Rhieni / Gwarcheidwaid y tu allan i'r Deyrnas Unedig**

i. Dilynir yr un drefn ag yn 4[a] i - ii uchod. Mae siart llif o'r broses yn Atodiad 3.

ii. Yn ogystal, darperir gwybodaeth bellach i'r Ymgeisydd yn egluro y bydd angen penodi rhywun yn y Deyrnas Unedig, ac yn ddelfrydol o fewn cyrraedd hwylus i Fangor, yn Warcheidwad dros yr ymgeisydd, gan riant neu warcheidwad yr ymgeisydd dramor, cyn y gall y Brifysgol gytuno i dderbyn y plentyn.

Dylai'r unigolyn a benodir yn warcheidwad yn y Deyrnas Unedig fod yn ymwybodol bod gwarcheidwad at ddiben y Polisi hwn yn golygu cyflawni tasgau a chyfrifoldebau'r rhiant / gwarcheidwad tramor, a ddirprwyir ganddynt. Fel y cyfryw, cytundeb preifat rhwng y rhiant / gwarcheidwad tramor a'r gwarcheidwad sydd yn y Deyrnas Unedig, ac nid yw'n ymwneud â'r Brifysgol.

Rhaid llenwi Adran D y Cytundeb (Atodiad 1) hefyd, sydd angen cadarnhad o gytundeb y gwarcheidwad gyda'r rhieni / gwarcheidwaid, lle mae'r gwarcheidwad yn datgan y bydd yn gweithredu ar ran y rhieni / gwarcheidwaid nes bydd y plentyn yn 18 oed. Yn achos y myfyrwyr hynny sydd angen fisa, ni roddir Cadarnhad Derbyn i Astudio (CDA) nes bydd hynny wedi'i gwblhau.

Ni all y Brifysgol gynorthwyo rhieni i ddod o hyd i rieni / gwarcheidwad addas yn y Deyrnas Unedig, ond yn achos y rhieni / gwarcheidwaid hynny nad oes ganddynt ffrindiau na pherthnasau yn y Deyrnas Unedig, mae rhestr o'r asiantaethau achrededig i'w cael gan yr isod:

Cymdeithas y Gwarcheidwaid Addysgol ar gyfer Myfyrwyr Rhyngwladol (AEGIS)

http://www.aegisuk.net/

**5. MYNEDIAD TRWY GOLEG RHYNGWLADOL PRIFYSGOL BANGOR (BUIC) O DAN GYTUNDEB RHWNG PRIFYSGOL BANGOR AC OXFORD INTERNATIONAL EDUCATION AND TRAVEL LIMITED (YN MASNACHU FEL OXFORD INTERNATIONAL EDUCATION GROUP) (OIEG)**

Pan fo ymgeiswyr sydd o dan 18 oed yn gwneud cais i BUIC bydd yr ymgeisydd yn cael gwybod bod angen cwblhau *Ffurflen Awdurdodiad Rhieni* ynghyd â *Ffurflen Cyfrifoldeb Gwarcheidwad* i'r ymgeiswyr hynny sy'n byw y tu allan i'r Deyrnas Unedig. Mae BUIC angen manylion cyswllt

gwarcheidwad yn y Deyrnas Unedig ac yn ddelfrydol o fewn cyrraedd cyfleus i Fangor. Bydd BUIC angen copi o gytundeb gwarcheidwad y Deyrnas Unedig gyda'r rhieni / gwarcheidwaid sydd dramor, lle bo'r gwarcheidwad sydd yn y Deyrnas Unedig yn honni y bydd yn gweithredu ar ran y rhieni / gwarcheidwaid sydd dramor hyd at ben-blwydd y plentyn yn 18 oed.

Oherwydd y bydd y myfyriwr yn fyfyriwr cofrestredig gyda Phrifysgol Bangor, mae'n ofyniad yn y Cytundeb rhwng y Brifysgol ac OIEG bod yr OIEG yn rhoi'r holl wybodaeth angenrheidiol i Brifysgol Bangor i sicrhau bod data'r myfyrwyr ar gael ac yn gywir, gan gynnwys unrhyw wybodaeth ynghylch gwarcheidwad yn y Deyrnas Unedig.

I'r graddau y mae'r Polisi hwn yn ymwneud â'r Cytundeb gyda'r OIEG, Polisi Prifysgol Bangor fydd drechaf.

## 6. TREFNIADAU LLETY

Bydd angen i fyfyrwyr sydd o dan 18 oed, nad ydynt yn dymuno byw gartref neu gyda gwarcheidwad penodedig, wneud cais i fyw yn un o neuaddau preswyl y Brifysgol pan ofynnir iddynt wneud hynny. Bydd byw gartref, gyda gwarcheidwad yn y Deyrnas Unedig, neu mewn neuadd breswyl o eiddo'r Brifysgol yn ystod y flwyddyn gyntaf, yn amod i unrhyw gynnig a wneir i fyfyriwr sydd o dan 18 oed. Er mwyn sicrhau na fydd myfyriwr sydd o dan 18 oed o dan anfantais oherwydd yr amod hwn, a bod myfyriwr yn dymuno byw yn un o neuaddau preswyl y Brifysgol, bydd y Brifysgol yn rhoi gostyngiad o £3 y dydd ar bris unrhyw ystafell o ddewis myfyriwr sydd o dan 18 oed.

Rhaid i fyfyrwyr sydd o dan 18 oed gadarnhau eu trefniadau llety gyda'r Swyddfa Dderbyniadau pan fyddant yn derbyn eu cynnig i astudio ym Mhrifysgol Bangor; fel arall, bydd y cynnig yn aros yn un amodol nes caiff hynny ei gadarnhau.

Dim ond llety sengl en-suite y gall myfyrwyr dan 18 oed ei archebu.

Ni all y Brifysgol gymryd cyfrifoldeb rhiant dros fyfyriwr sydd o dan 18 oed. Dylai myfyrwyr a'u rhieni/gwarcheidwaid gofio mai sefydliad i oedolion yw Prifysgol Bangor. Mae disgwyl i fyfyrwyr ymddwyn fel oedolion a chymryd cyfrifoldeb fel oedolion. Mae disgwyl i fyfyrwyr feddu ar y sgiliau angenrheidiol i fyw ac astudio'n annibynnol gyda phobl o amrywiaeth eang o gefndiroedd. Caiff leoedd yn neuaddau Prifysgol Bangor eu cynnig ar y ddealltwriaeth y bydd myfyrwyr yn gallu ymaddasu i fyw oddi cartref ac gofalu amdanynt eu hunain yn ymarferol.

Pe bai myfyriwr yn dal i fod o dan 18 oed yn ystod eu hail (neu'r drydedd) flwyddyn, bydd angen iddynt aros yn un o neuaddau'r Brifysgol neu fyw gyda'u rhieni neu warcheidwaid.

O dan Ddeddf Rhentu Cartrefi Cymru (2016) nid yw myfyrwyr sydd o dan 18 oed yn gallu llofnodi contract deiliadaeth. Byddant yn cael "trwydded i feddiannu" a gaiff ei drosi'n gontract deiliadaeth ar ddyddiad eu penblwydd yn 18 oed.

## CYFRIFOLDEBAU

### [a] Prifysgol Bangor

Bydd y Brifysgol yn gwneud fel a ganlyn:

1. Gwarantu ystafell yn llety'r Brifysgol i fyfyrwyr sydd o dan 18 oed fel amod o'u cynnig, oni bai eu bod wedi nodi y byddant yn byw gartref neu gyda gwarcheidwad yn y Deyrnas Unedig.

2. Rhoi llety i fyfyrwyr lle gallant gael gafael yn rhwydd ar aelod o'r Staff neu dderbynfa lle mae staff ar gael 24 awr y dydd.

3. Pennu ystafelloedd sengl gyda chyfleusterau en suite i fyfyrwyr lle bo modd.

4. Tynnu sylw'r tîm rheoli yn y Swyddfa Neuaddau at fanylion myfyrwyr sydd dan 18 oed.

5. Integreiddio myfyrwyr sydd dan 18 oed gyda rhai sydd dros 18 oed.

6. Sicrhau bod yr holl Staff perthnasol, gan gynnwys y Tîm Cymorth Preswyl a’r staff diogelwch yn cael Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

7. Darparu hyfforddiant perthnasol i staff a gyflogir gan y Brifysgol sydd â mynediad rheolaidd i ystafelloedd gwely myfyrwyr.

8. Trefnu cyfarfod o fewn mis wedi dechrau'r flwyddyn academaidd gydag unrhyw fyfyriwr dan 18 oed. Cynhelir y cyfarfod gan Uwch Warden i drafod y newid o fywyd cartref i lety Prifysgol ac i sicrhau fod popeth yn iawn. Ni fydd y Brifysgol yn aildrefnu'r cyfarfod cyswllt cyntaf hwn os na fydd y myfyriwr yn dod iddo. Ni fydd y Brifysgol yn gwneud gwiriadau eraill, heblaw am y rhai uchod, ar fyfyrwyr dan 18 oed sy'n byw mewn llety o dan reolaeth y Brifysgol, ac ni fydd yn monitro’r ffordd mae'r myfyrwyr hynny’n treulio eu hamser hamdden nac yn reoli eu harian.

9. Trefnu cyfarfodydd dilynol os yw’r myfyriwr yn dymuno hynny. Fel arall, ni chaiff cyfarfodydd dilynol eu trefnu.
10. Sicrhau bod y myfyrwyr yn gwybod â phwy y dylent gysylltu os bydd anawsterau, a sicrhau y caiff y myfyrwyr ymdrin â materion yn gyfrinachol os ydynt yn dymuno hynny. Bydd y Brifysgol yn ceisio annog y myfyrwyr i gynnwys y rhiant/gwarcheidwad lle bo'n briodol, ond bydd yn rhoi'r brif ystyriaeth i gais y myfyriwr am gyfrinachedd a lles y myfyriwr, hyd yn oed os bydd hynny'n golygu peidio â dweud wrth riant/gwarcheidwad ar gais y myfyriwr.

11. Sicrhau bod y myfyrwyr yn gwybod â phwy y dylent gysylltu os bydd anawsterau, a sicrhau y caiff y myfyrwyr ymdrin â materion yn gyfrinachol os ydynt yn dymuno hynny. Bydd y Brifysgol yn ceisio annog y myfyrwyr i gynnwys y rhiant/gwarcheidwad lle bo'n briodol, ond bydd yn rhoi'r brif ystyriaeth i gais y myfyriwr am gyfrinachedd a lles y myfyriwr, hyd yn oed os bydd hynny'n golygu peidio â dweud wrth riant/gwarcheidwad ar gais y myfyriwr.

12. Sicrhau bod staff Gwasanaethau’r Campws a Chontractwyr y Brifysgol yn cadw at y canllawiau i ‘Rai dan 18 oed mewn Neuaddau Preswyl – Gweithdrefn Fynediad i Ystafelloedd bob amser wrth ofyn am fynediad i ystafelloedd. Caiff unrhyw atgyweiriadau / gwaith arall mewn ystafelloedd eu gwneud rhwng 9 a.m. a 5 p.m.

**(b) Myfyrwyr**

Bydd myfyrwyr sydd o dan 18 oed yn llety’r Brifysgol yn gwneud fel a ganlyn:

1. Rhoi enw a chyfeiriad rhiant/gwarcheidwad a fydd yn bwynt cyswllt i'r Brifysgol i'w hysbysu ynghylch dyledion rhent, achosion difrifol o dorri'r Amodau Preswylio neu faterion difrifol sy’n ymwneud ag iechyd (gweler pwynt 8 isod hefyd).

2. Cadw at delerau ac amodau Cytundeb Preswylio'r Brifysgol o'r adeg y derbynnir ystafell yn y Brifysgol.

## 7. CYSWLLT MEWN ARGYFWNG / MATERION IECHYD

Mae'n bwysig iawn bod myfyrwyr sydd o dan 18 oed yn darparu manylion cyswllt rhag argyfwng ac felly bydd angen i fyfyrwyr ac/neu eu rhieni ddarparu'r wybodaeth honno cyn iddynt ddod i'r Brifysgol.

Mewn achosion prin, efallai y bydd angen cydsyniad i roi triniaeth feddygol frys cyn y gellir cysylltu â rhieni neu warcheidwaid. Trwy lofnodi'r Cytundeb a nodir yn 4. [a] iii uchod mae rhieni / gwarcheidwaid yn rhoi eu cydsyniad, mewn argyfwng o'r fath, bod gan aelod uwch o staff y Brifysgol hawl i weithredu ar gyngor meddygol a gwneud yr hyn sydd er lles gorau'r myfyriwr.

Mae rhieni neu warcheidwaid yn gyfrifol am sicrhau bod y Brifysgol yn cael gwybod am unrhyw anghenion neu ofynion arbennig.

## 8. GWEITHDREFNAU MEWNOL

Caiff Pennaeth yr Ysgol berthnasol, y Pennaeth Bywyd Preswyl a'r Rheolwr Cefnogaeth Breswyl yn cael eu hysbysu cyn y cofrestru, gan y Bennaeth Derbyniadau ynglŷn âg unrhyw fyfyriwr yn eu Hysgol neu neuadd breswyl a fydd o dan 18 oed pan ddaw i'r Brifysgol. Rhoddir gwybod hefyd i'r Tiwtor Personol ac i unrhyw Wardeniaid perthnasol. Fel rheol ni fydd y staff dysgu a'r staff eraill yn cael eu hysbysu am oedran y myfyriwr.

Gall cyrsiau'r Brifysgol gynnwys teithiau maes gorfodol neu ddewisol, gwibdeithiau neu gyfnodau astudio eraill i ffwrdd o'r Brifysgol. Ni all y Brifysgol gymryd unrhyw gyfrifoldeb ychwanegol dros fyfyriwr sydd o dan 18 oed mewn perthynas â gweithgareddau o'r fath. Oni nodir yn wahanol yn y Cytundeb y cyfeirir ato yn Adran 4iii uchod, bydd y Brifysgol yn rhagdybio bod y rhiant neu warcheidwad yn rhoi cydsyniad i'r myfyriwr gymryd rhan yn y gweithgareddau hynny.

## 9. DIOGELU

O dan y gyfraith mae rhywun dan 18 oed yn blentyn. Mae gan y Brifysgol gyfrifoldeb i amddiffyn rhai dan 18 oed rhag niwed. Mae gan y Brifysgol Swyddog dynodedig (Uwch Swyddog Diogelu, Ymddygiad a Chwynion y Myfyrwyr) sef y Swyddog Diogelu. Ymdrinnir ag unrhyw honiadau neu amheuon a ddygir i sylw'r Brifysgol o dan y gweithdrefnau a nodir yn y *Polisi Diogelu*.

Cyfrifoldeb Pennaeth yr Ysgol / Adran berthnasol yw sicrhau bod holl swyddi staff sy'n cynnwys cysylltiad sylweddol heb ei oruchwylio â myfyrwyr sydd o dan 18 oed yn cael eu nodi a bod gwiriadau statudol perthnasol (megis gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (CRB) yn cael eu cyflawni.

## 10. ALCOHOL A THYBACO

Mae'n anghyfreithlon gwerthu alcohol neu dybaco i rai sydd o dan 18 oed ac mae'n anghyfreithlon iddynt hwythau ei brynu. Bydd y Brifysgol yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau na chaiff y deddfau trwyddedu eu torri mewn perthynas â'r mannau hynny sydd dan reolaeth y Brifysgol. Fodd bynnag, ni all y Brifysgol ymrwymo i oruchwylio unrhyw fyfyriwr unigol sydd o dan 18 oed.

## 11. UNDEB Y MYFYRWYR PRIFYSGOL BANGOR

Rydym yn annog myfyrwyr sydd o dan 18 oed i ymuno â chlybiau a chymdeithasau'r Brifysgol ac/neu Undeb y Myfyrwyr ond ni chânt ddal swyddi ynddynt nes byddant yn 18 oed. Yn achos rhai clybiau a chymdeithasau, gall cyfranogiad mewn rhai gweithgareddau fod yn gyfyngedig os yw'r myfyrwyr o dan 18 oed.

## 12. HYD Y POLISI

Nid yw darpariaethau'r polisi hwn yn gymwys pan ddaw'r myfyriwr yn 18 oed, er os yw'r myfyriwr yn byw yn un o neuaddau preswyl y Brifysgol, bydd y trefniadau preswylio'n parhau tan ddiwedd y flwyddyn academaidd ar ôl eu pen-blwydd yn 18 oed.

**ATODIAD 1**

## CYTUNDEB RHIANT / GWARCHEIDWAID

**I'w llenwi ar gyfer ymgeiswyr a fydd o dan 18 oed pan fyddant yn dechrau eu cwrs**

**ADRAN A**
I'w llenwi gan riant / gwarcheidwad yr ymgeisydd:

**Enw Llawn yr Ymgeisydd:** **Dyddiad Geni:**

**Rhif Adnabod Myfyriwr Prifysgol Bangor:**

**Y cwrs y gwnaed cais i'w astudio:** **Dyddiad Dechrau'r Cwrs:**

**ADRAN B: DATGANIAD**

- Cadarnhaf fy mod i wedi darllen a deall *Polisi a'r Dulliau Gweithredu Prifysgol Bangor i Fyfyrwyr sydd o dan 18 oed.*
- Rwy'n deall ac yn derbyn na fydd Prifysgol Bangor yn gweithredu in loco parentis dros fy mhlentyn / fy ward.
- Cadarnhaf fy mod yn gyfrifol yn gyfreithiol dros fy mhlentyn nes bydd yn 18 oed.
- Rwy'n deall ac yn derbyn mai sefydliad i oedolion yw Prifysgol Bangor ac y bydd fy mhlentyn / ward yn cael ei drin/ei thrin fel oedolyn yn gyffredinol.
- Rwy'n rhoi cydsyniad i 'mhlentyn / ward gymryd rhan mewn gweithgareddau (megis teithiau maes, gwibdeithiau a chyfnodau astudio eraill i ffwrdd o'r Brifysgol) sy'n rhan angenrheidiol o'u hastudiaethau.
- Rwy'n cytuno i dderbyn atebolrwydd am ddyledion fy mhlentyn / ward i Brifysgol Bangor hyd nes eu bod yn 18 oed.
- Rwy'n deall ac yn derbyn y bydd fy mhlentyn / ward, tra bydd yn astudio ym Mhrifysgol Bangor, yn dod o dan ddeddfau Cymru a Lloegr ac awdurdodaeth Llysoedd Cymru a Lloegr a rheolau'r Brifysgol.
- Rwy'n deall ac yn derbyn, o dan ofynion Deddf Diogelu Data 1998, na all Prifysgol Bangor ryddhau gwybodaeth (academaidd na phersonol) sy'n ymwneud â 'mhlentyn / ward, oni bai fod fy 'mhlentyn / ward wedi rhoi cydsyniad penodol i'r Brifysgol wneud hynny.

**Enw Llawn a chyfeiriad y Llofnodwr (Rhiant neu Warcheidwad):**

**Perthynas â'r Ymgeisydd:**

**Llofnod:** **Dyddiad:**

**Adran C: I Ymgeiswyr gyda Rhiant/Rhieni / Gwarcheidwad/waid y tu allan i'r Deyrnas Unedig: lle cafodd Gwarcheidwad yn y Deyrnas Unedig ei benodi:**

*(Gweler 5 (b) Polisi a Gweithdrefnau i Fyfyrwyr sydd o dan 18 oed.)*

**Enw Llawn a Chyfeiriad y Gwarcheidwad:**

**Rhif Ffôn Cyswllt:**

**E-bost**:

**Cadarnhaf fy mod wedi cytuno â'r unigolyn uchod y bydd yn gweithredu fel y gwarcheidwad yn y Deyrnas Unedig dros fy mhlentyn / ward, a bod ganddo/ganddi awdurdod llawn i weithredu ar fy rhan tan ben-blwydd fy mhlentyn / ward yn 18 oed.**

**Enw Llawn:**

**Perthynas â'r Ymgeisydd:**

**Llofnod:** **Dyddiad:**

**Enw:**

**ADRAN D: CYSWLLT MEWN ARGYFWNG / MATERION IECHYD**

Pe bai argyfwng yn ymwneud â'ch plentyn yn digwydd wedi iddo/iddi gofrestru yn y Brifysgol a chyn iddo/iddi ddod yn 18 oed, nodwch un neu fwy o fanylion cyswllt mewn argyfwng isod (nodwch y rhiant neu'r gwarcheidwad yn un o'r rheini).

**Cyswllt 1**

**Enw:**

**Cyfeiriad**:

**E-bost**:

**Ffôn:** **Ffôn Symudol:**

**Cyswllt 2**

**Enw:**

**Cyfeiriad**:

**E-bost**:

**Ffôn:** **Ffôn Symudol**

Rhag ofn y bydd Brifysgol yn methu â chysylltu â'r naill na'r llall o'r enwau cyswllt mewn argyfwng a nodasoch, a fyddech cystal â datgan isod eich bod yn fodlon i'r Brifysgol awdurdodi triniaeth feddygol pe bai angen hynny. Hoffem eich sicrhau mai dim ond ar gyngor meddygol y bydd hynny'n digwydd ac y bydd y Brifysgol yn y cyfamser yn parhau i geisio cysylltu â'r enwau cyswllt a roddasoch.

- Rwy'n cydsynio i uwch swyddog ym Mhrifysgol Bangor sy'n gweithredu ar gyngor meddygol er lles gorau fy mhlentyn / ward, awdurdodi triniaeth feddygol frys pe bai angen hynny, naill ai cyn y gellir cysylltu â mi neu pe na bai'n bosibl cysylltu â mi, gwarcheidwad penodedig fy mhlentyn / ward ac / neu'r cysylltiadau mewn argyfwng a bennais.

**Enw Llawn y Llofnodwr:**


**Perthynas â'r Ymgeisydd:**

**Llofnod:** **Dyddiad:**

*Bydd yr wybodaeth bersonol a roddwch ar y ffurflen hon yn cael ei defnyddio gan aelodau perthnasol o staff y Brifysgol i weinyddu gofynion y Polisi a'r Gweithdrefnau i Fyfyrwyr Prifysgol Bangor sydd o dan 18 oed. Caiff eich gwybodaeth chithau ac eiddo eich plentyn / ward eu cadw'n ddiogel yn y Brifysgol; dim ond y rhai sydd â hawl i'w gweld a gaiff fynediad ati a chaiff ei phrosesu yn unol â'r deddfau diogelu data. Mae gennych hawl i ofyn am gopi o'ch gwybodaeth unrhyw bryd drwy gysylltu ag Ysgrifennydd y Brifysgol ar: info-compliance@bangor.ac.uk. Mae'n bosibl y bydd gwybodaeth sy'n ymwneud â'ch plentyn / ward yn cael ei rhannu mewn amgylchiadau cyfyngedig fel y gwelir yn Adran 8 y Polisi.*

**Atodiad 2**

# Myfyrwyr o dan 18 oed (yn y Deyrnas Unedig)



**Atodiad 3**

# Myfyrwyr o dan 18 oed (y tu allan i'r Deyrnas Unedig)

